

Cynllun Lles Caerdydd
2023-2028

Adroddiad
Blynyddol
2023/24







Cynnwys

Rhagair 4

Cyflwyniad 5

Amcan Lles

Mae Caerdydd yn Lle Gwych i Gael Eich Magu 8

Mae Caerdydd yn Lle Gwych i Dyfu'n Hyn 15


Cefnogi Pobl Allan o Dlodi 20

Cymunedau Diogel, Hyderus a Grymus 27

Prifddinas sy'n Gweithio Dros Gymru 33

Caerdydd Un Blaned 39

Moderneiddio ac Integreiddio ein Gwasanaethau Cyhoeddus 47



Rhagair

Ym mis Mai 2023, cyhoeddodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Caerdydd ei ail Gynllun Lles, a oedd yn nodi blaenoriaethau partneriaeth ar gyfer gweithredu rhwng 2023 a 2028, gydag uchelgais cyffredinol i sicrhau y bydd Caerdydd yn lle gwell fyth i fyw a gweithio ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, lle bydd yr holl ddinasyddion, y rhanbarth a'r genedl yn teimlo buddion twf.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, gwnaed cynnydd sylweddol o ran cyflawni blaenoriaethau'r BGC a chyflawni'r uchelgais hwn. O fod y ddinas gyntaf yn y DU i gael ei chydabod yn ffurfiol yn Ddinas sy'n Dda i Blant UNICEF, i barhau i weithio i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd trwy ein rhaglen waith Cynyddu Gwaith Atal. O gryfhau a symleiddio'r trefniadau ar gyfer diogelwch cymunedol a diogelu, i lansio uchelgais i ddod yn Ddinas sy'n Deall Niwrowahaniaeth. O ddatblygu dull integredig o reoli a datblygu asedau partneriaeth i gryfhau'r dull partneriaeth o ymgynghori ac ymgysylltu. Gwnaed y cyflawniadau hyn – a llawer mwy – yn bosib oherwydd gwaith caled ac ymroddiad ein gwasanaethau cyhoeddus, gan weithio mewn partneriaeth.

Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod y byd wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae gwaddol pandemig COVID-19 wedi gwaethygu anghydraddoldebau presennol ac wedi cyflwyno heriau newydd, gan gynnwys cynnydd parhaus yn y galw am wasanaethau cyhoeddus, ochr yn ochr â chynnydd yng nghymhlethdod achosion.

Mae'r argyfwng costau byw hefyd yn parhau i roi pwysau ar aelwydydd ledled y ddinas, gan effeithio yn benodol ar unigolion a theuluoedd sy'n agored i niwed. Mae gwasanaethau cyhoeddus yn wynebu heriau cyflenwi sylweddol ledled y wlad oherwydd chwyddiant uchel a phrisiau ynni cynyddol, sy'n cynyddu costau darparu gwasanaethau a buddsoddi yn ein hadeiladau a'n seilwaith.

Gosodir yr heriau hyn yn erbyn cefndir yr argyfyngau hinsawdd a natur; mae Caerdydd eisoes yn profi effeithiau'r argyfyngau hyn, fel patrymau tywydd anghyson, tywydd crasboeth, a newidiadau mewn bioamrywiaeth.

A ninnau'n arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus, gwyddom na all un sefydliad sy'n gweithredu ar ei ben ei hun ymdrin â'r problemau sy'n ein hwynebu. Dyna pam y byddwn yn parhau i weithio gyda'n gilydd, gan ganolbwyntio ar ein blaenoriaethau partneriaeth i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb o bob math, gwella iechyd y boblogaeth, ac ymateb i'r argyfwng hinsawdd. Trwy weithio gyda'n gilydd, gallwn adeiladu dyfodol cryfach, tecach, a gwyrddach i Gaerdydd.



Huw Thomas

**Y Cynghorydd
Huw Thomas
Cadeirydd – Bwrdd
Gwasanaethau
Cyhoeddus Caerdydd**



Charles Janczewski

**Charles Janczewski
Is-gadeirydd –
Bwrdd Gwasanaethau
Cyhoeddus Caerdydd**

Cyflwyniad

Ynglŷn â'r Adroddiad Blynyddol

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn amlinellu'r gwaith a wnaed gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Caerdydd dros y 12 mis diwethaf i gyflawni ei [Gynllun Lles Lleol 2023-28](#).

Ategir yr adroddiad blynyddol gan ddiweddariad manwl ar gynnydd yn erbyn blaenoriaethau BGC Caerdydd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a amlinellir yn y Cynllun Lles (Atodiad A), yn ogystal ag adroddiad 'Caerdydd yn 2024' (Atodiad B), sy'n darparu dadansoddiad tueddiadau o bob un o ddangosyddion lles y Cynllun.

Beth yw BGC Caerdydd?

Mae BGC Caerdydd yn dod ag arweinwyr a phenderfynwyr gwasanaethau cyhoeddus y ddinas ynghyd, gan gynnwys y rheini o'r Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd, Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru, y Trydydd Sector a'r Gwasanaethau Tân, Heddlu a Phrawf. Diben y BGC yw gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Caerdydd drwy gryfhau'r cydweithio ar draws gwasanaethau cyhoeddus y ddinas.

Beth yw Cynllun Lles?

Mae'r Cynllun Lles yn nodi blaenoriaethau BGC Caerdydd o ran camau gweithredu ar gyfer 2023-2028. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar y meysydd darparu gwasanaethau cyhoeddus lle mae gwir angen gwaith partneriaeth rhwng gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol y ddinas, a chyda dinasyddion Caerdydd.

Felly, dylid ystyried y Cynllun Lles fel dogfen i ategu cynlluniau strategol pob aelod o'r BGC, gan ganolbwyntio ar sicrhau 'mantais gydweithredol' mewn rhannau o fywyd y ddinas a gwasanaethau cyhoeddus sy'n ymwneud â phob gwasanaeth cyhoeddus a chymunedol.

Mae'r Cynllun yn cynnwys 'Amcanion Lles', meysydd gweithredu y mae BGC Caerdydd wedi'u nodi fel y rhai pwysicaf. Mae hefyd yn cynnwys 'Blaenoriaethau', neu'r camau y bydd gwasanaethau cyhoeddus y ddinas, ar y cyd, yn eu cyflawni dros bum mlynedd nesaf y cynllun. Amcanion Lles BGC Caerdydd yw:

1. Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu
2. Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn
3. Cefnogi pobl allan o dlodi
4. Cymunedau diogel, hyderus a grymus
5. Prifddinas sy'n gweithio dros Gymru
6. Caerdydd Un Blaned
7. Moderneiddio ac integreiddio ein gwasanaethau cyhoeddus



Sut y caiff y Cynllun Lles ei gyflawni?

Mae cyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Lles ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn gofyn am weithredu ar draws sawl amserlen a lefel, o'r uniongyrchol a'r gweithredol, i'r hirdymor a'r strategol.

Er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau ar gyfer gweithio mewn partneriaethau, cynhaliwyd adolygiad o lywodraethu partneriaeth ar ôl-troed rhanbarthol Caerdydd a'r Fro, er mwyn sicrhau eglurder ynghylch cyfrifoldebau ac atebolrwydd ar gyfer cyflawni. Mae pob blaenoriaeth yn cyd-fynd â 'Bwrdd Cyflawni' perthnasol, gyda chysylltiad â BGC Caerdydd neu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) Caerdydd a'r Fro.

Lle mae'r BPRh yn arwain ar oruchwylio a chyflawni blaenoriaethau partneriaeth (yn Amcanion Lles 1 a 2) nodir hyn yn glir.

Sut y caiff cynnydd ei fesur?

Adroddir am y cynnydd a wneir o ran cyflawni'r Cynllun Lles fel a ganlyn:

- Diweddariad o'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r blaenoriaethau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a nodwyd yn y Cynllun Lles, sydd wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol hwn ac yn Atodiad A.
- Diweddariad am berfformiad y ddinas yn erbyn y dangosyddion canlyniadau a nodwyd yn y Cynllun Lles, sydd wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol hwn¹ ac yn adroddiad Caerdydd yn 2024 (Atodiad B).

Mae'r data diweddaraf hefyd ar gael ar [Ddangosfwrdd Dinas-gyfan ar-lein Caerdydd](#). Mae'r Dangosfwrdd yn dod â nifer o setiau data at ei gilydd, wedi'u grwpio yn ôl gwahanol themâu, i gyflwyno darlun o fywyd yng Nghaerdydd. Gellir gweld y data dros amser, a lle mae ar gael, ei gymharu ag ardaloedd eraill neu ei dorri i lawr i lefel is-Gaerdydd.


¹ Mae'r data diweddaraf sydd ar gael wedi'i gynnwys yn erbyn pob dangosydd canlyniad ar lefel y ddinas, yn ogystal â dyddiad y data diweddaraf sydd ar gael, sy'n amrywio ar gyfer pob dangosydd canlyniad. Yn ogystal, nodir data cymharol ddiweddar, yn ogystal â gwreichlin i gynrychioli tueddiadau'r data. Mae'n bwysig nodi bod yr amserlen a ddefnyddir ar gyfer y wreichlin yn amrywio ar gyfer pob dangosydd canlyniad, wrth fod yr echelin fertigol bob amser yn dechrau ar sero. I gael rhagor o fanylion, gweler adroddiad 'Caerdydd yn 2024' sy'n rhoi dadansoddiad manwl o dueddiadau.





Amcan Lles 1


Mae Caerdydd
yn Lle Gwych i
Gael Eich Magu





Cyflwyniad

I nifer o blant a phobl ifanc yn y ddinas, mae Caerdydd eisoes yn lle gwych i gael eich magu. Mae darpariaeth addysgol a chyflawniad dysgwyr wedi gwella'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae'r ddinas yn cynnig cyfoeth o gyfleoedd, gyda llwybrau ar gyfer datblygu gyrfa ac i gymryd rhan mewn chwaraeon, gweithgareddau hamdden a diddordebau diwylliannol. Fodd bynnag, nid yw holl bobl ifanc y ddinas yn elwa ar hyn o bryd; mae anghydraddoldeb yn dal i fod yn amlwg yng Nghaerdydd, wedi ei wneud yn waeth gan effaith barhaol pandemig COVID-19 a'r argyfwng costau byw parhaus, ac yn effeithio'n sylweddol ar fywydau plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae BGC Caerdydd yn cydnabod bod angen gwneud mwy i fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hwn o ran cyflawniad, cyfranogi a dilyniant, a sicrhau mai Caerdydd yw'r lle delfrydol i bob plentyn dyfu, dysgu a ffynnu ynddo.



Mesur Cynnydd

| Y dangosydd canlyniadau lefel dinas y mae'r BGC yn ceisio cael effaith arno | | Dyddiad y data diweddaraf | Y data diweddaraf | Data Cymharol Ddiweddar | Tueddiad |
|---|---|---------------------------|-------------------|---|----------|
| Canran y plant mewn teuluoedd incwm isel | Incwm Isel Cymharol | 2022/23 | 21.0 % | Oherwydd effaith y pandemig ar yr ystadegau hyn, ni chynghorir cymariaethau ar draws blynyddoedd ar gyfer Diwedd Blwyddyn Ariannol 2023 na Diwedd Blwyddyn Ariannol 2022. | |
| | Incwm Isel Absoliwt | | 17.8 % | | |
| Lles meddyliol: plant a phobl ifanc ac oedolion | Sgôr Gymedrig (11-16 oed) | 2021 | 23.3 | 24.0 (2019) | |
| | Cyfartaledd wedi'i Safoni yn ôl Oedran (Oedolion) | 2022/23 | 49.4 | 53.2 (2018/19) | |
| Canran y plant rhwng 4 a 5 oed sydd â phwysau iach (neu dan bwysau) | | 2022/23 | 79.1 % | 75.8 % (2021/22) | |
| Canran y myfyrwyr (11-16 oed) sy'n gorfforol weithgar am fwy na 60 munud ar lai na 3 diwrnod yr wythnos yn ôl sgôr cyfoeth teulu ¹ | | 2021/22 | 18 | Nid yw ar gael ar hyn o bryd | |
| Canran y plant sy'n beicio/cerdded i'r ysgol | | 2023 | 58.6 % | 52.7 % (2022) | |
| Canran y plant sy'n derbyn MMR2 erbyn eu bod yn 4 oed (ail ddos o frechlyn Clwy'r Pennau, y Frech Goch, Rwbela) | | 2022/23 | 81.3 % | 84.3 % (2021/22) | |
| Canran y myfyrwyr (11-16 oed) sy'n smygu o leiaf unwaith yr wythnos ar hyn o bryd | | 2021/22 | 1.8 % | 1.8 % (2019/20) | |
| Canran y rheini sy'n gadael ysgol ym Blwyddyn 11 a Blwyddyn 13 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant | Blwyddyn 11 | 2023 | 2.3 % | 2.0 % (2022) | |
| | Blwyddyn 13 | | 3.6 % | 2.2 % (2022) | |
| Y nifer sy'n dod i gysylltiad â'r System Cyfiawnder Ieuencid am y tro cyntaf | | 2023 | 32 | 36 (2022) | |

1 Y Gwahaniaeth mewn Pwynt Canran rhwng Teuluoedd Mwy Cefnog a Theuluoedd Llai Cefnog

Trosolwg o waith y BGC yn 2023/24

Dinas sy'n Dda i Blant

Ym mis Hydref 2023, daeth Caerdydd yn ddinas gyntaf y DU i gael ei chydabod yn ffurfiol yn Ddinas sy'n Dda i Blant UNICEF. Mae partneriaid BGC Caerdydd wedi bod yn gweithio tuag at y gydnabyddiaeth hon ers 2017, pan ymunodd y ddinas â rhaglen Dinasoedd a Chymunedau sy'n Dda i Blant UNICEF. Ers hynny, mae partneriaid wedi gweithio i roi nifer o brosiectau, mentrau a champau gweithredu uchelgeisiol ar waith i sicrhau bod plant a phobl ifanc, ledled y ddinas, yn gallu manteisio ar eu hawliau, a mynd i'r afael â'r rhwystrau a allai gyfyngu ar eu cyfleoedd bywyd.

Yn dilyn cydnabyddiaeth, cynhaliodd BGC Caerdydd sesiwn ymgysylltu gydag aelodau Cyngor Ieuenctid Caerdydd (CIC), a alluogodd bobl ifanc i fynegi pa fath o ddinas yr hoffent ei gweld yn y dyfodol. Wrth edrych ymlaen, bydd y ddinas yn parhau i hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc drwy Gynllun Cynaliadwyedd Dinas sy'n Dda i Blant 2023-2026, gan ganolbwyntio ar hawliau plant ac addysg, cyfranogiad ac ymgysylltu, cynllunio a dylunio trefol, a mynd i'r afael â materion anghydraddoldeb.

Addewid Caerdydd

Mae pobl ifanc yn parhau i gael cynnig gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau dilys, cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant, yn ogystal â phrofiad gwaith a gweithgareddau cyfoethogi'r cwricwlwm drwy Addewid Caerdydd, gyda thros 300 o gyflogwyr yn cefnogi'r fenter ar hyn o bryd.

Yn 2023/24, parhaodd Addewid Caerdydd i roi cyngor i bobl ifanc, ysgolion a busnesau, yn ogystal â chyfleoedd i bobl gysylltu, trwy wythnosau 'Agor Eich Llygaid' a Fforymau Busnes. Yn nodedig, rhoddwyd ffocws ar ddarparu profiad gwaith i ddisgyblion Chweched Dosbarth ar draws Caerdydd - gyda'r 'Beth Nesaf?' Lansiwyd rhaglen wobrwyo - yn dilyn adborth gan ddisgyblion mai profiad gwaith yw'r math o gymorth gan gyflogwyr y maent ei eisiau fwyaf. Mae llwybrau cyflogaeth â chymorth hefyd wedi'u datblygu ar gyfer oedolion ifanc ag anableddau dysgu, yn ogystal â Phlant sy'n Derby Gofal.

Wrth symud ymlaen, bydd ffocws yn parhau i gael ei roi ar rymuso partneriaid i wella profiadau dysgu i blant a phobl ifanc, gan feithrin llwybrau gyrfa ystyrlon. Yn ogystal, bydd gwaith yn cael ei wneud i archwilio sut y gall contractau ar gyfer nwyddau a gwasanaethau ar draws sefydliadau partner sicrhau'r buddion mwyaf posib i blant a phobl ifanc.



Iechyd a Lles

Mae sawl rhaglen waith ar y gweill i wella iechyd a lles plant a phobl ifanc, gan gynnwys¹ :

- **Gwella lles emosiynol ac iechyd meddwl:** Mae sawl menter i gefnogi iechyd meddwl a lles emosiynol plant a phobl ifanc, yn enwedig y rheini sydd mewn trallod seicolegol aciwt, yn cael eu datblygu drwy raglen Dechrau'n Dda y BPRh. Mae hyn yn cynnwys datblygu model gofal newydd sy'n darparu cymorth uniongyrchol i bobl ifanc sy'n dangos trallod aciwt a seicolegol, yn ogystal â'u teuluoedd; parhau i weithredu'r ymagwedd 'Dim Drws Anghywir', gan sefydlu cyfarfodydd amlasiantaeth wythnosol i nodi rhannau o'r system a allai fod yn gallu diwallu anghenion cymorth iechyd meddwl a lles a nodwyd gan deulu; a sicrhau cyllid ychwanegol i ddarparu cynlluniau peilot sy'n canolbwyntio ar gymorth iechyd meddwl a pherthynas rhwng rhieni a babanod. Wrth symud ymlaen, bydd arweinwyr Dechrau'n Dda ar draws y rhanbarth yn gweithio i ddiffinio ymhellach y blaenoriaethau ar gyfer goruchwyllo partneriaethau, trwy adolygu cynnydd cyfredol prosiectau presennol a sicrhau bod cwrmpas rhaglenni gwaith rhanbarthol yn cynnwys blaenoriaethau sefydliadol unigol a nodwyd eisoes. Bydd cynllun cyflawni diwygiedig yn cael ei sefydlu ar gyfer 2024/25 ymlaen.
- **Gwella'r nifer sy'n derbyn brechiad yn ystod plentynod:** Nod Llywodraeth Cymru yw cael cyfradd frechu MMR (Clwy'r Pennau, y Frech Goch a Rwbela) o 90% ym mhob ysgol yng Nghymru sydd â mwy na 50 o ddisgyblion. Er mwyn cyflawni hyn, gwnaed ymdrechion i nodi ysgolion yng Nghaerdydd sydd â chyfraddau brechu arbennig o isel a chynnig brechlynnau yn rhagweithiol i ddisgyblion heb eu brechu. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu wedi'i dargedu ag ysgolion â phoblogaeth uchel o ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig, lle mae'r nifer sy'n derbyn brechiadau yn arbennig o isel. Er gwaethaf yr ymdrechion hyn, mae cyrraedd rhieni wedi bod yn heriol, gan arwain at gyfraddau cydsyniad ar sail gwybodaeth a nifer sy'n derbyn brechiadau isel. Wrth symud ymlaen, bydd Hyrwyddwyr Brechu yn cael eu datblygu o fewn cymunedau i wella lledaenu gwybodaeth,

addysg a chydysyniad o ran brechu MMR.

- **Gwella'r cynnig cymorth i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion iechyd ac anabledd cymhleth sy'n cyd-ddigwydd:** Mae'r BPRh, drwy ei raglen Dechrau'n Dda, yn cefnogi mentrau amrywiol i wella cefnogaeth i blant a phobl ifanc ag anghenion iechyd ac anabledd cymhleth. Mae hyn yn cynnwys rhaglen Braenaru'r Blynnyddoedd Cynnar rhanbarthol, sydd wedi gwella canlyniadau i fabanod a phlant sydd ag anghenion ychwanegol sy'n dod i'r amlwg yng Nghaerdydd.. Er enghraifft, drwy wella mynediad at gymorth i blant a theuluoedd sy'n aros am asesiad Niwroddatblygiad a chefnogi'r cyfnod pontio blynnyddoedd cynnar i addysg i blant sy'n derbyn gofal ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Fodd bynnag, mae diwedd trefniadau cyllido o fewn rhaglen Braenaru'r Blynnyddoedd Cynnar wedi lleihau effaith, yn enwedig o fewn iechyd meddwl amenedigol a gofod perthynas rhieni a babanod. Er bod cyllid wedi'i sicrhau i gadw rhai elfennau cyflenwi, bydd y gwaith sy'n weddill yn cael ei atal. Wrth edrych ymlaen, mae'r BPRh wedi cynnig blaenoriaeth gyffredinol ar gyfer Dechrau'n Dda sy'n adeiladu ar egwyddorion y 1000 Diwrnod Cyntaf, gan sicrhau bod ffocws yn parhau ar atal ac ymyrryd yn gynnar ar gyfer babanod, plant a'u teuluoedd.

¹ Sylwer bod diweddariad ynglŷn â'r rhaglen Symud Mwy, Bwyta'n Iach (SMBI), yn ogystal ag ar waith i leihau smygu, i'w weld yn Amcan Lles 3: Cefnogi pobl allan o dlodi.

Troseddau Ieuentid

Gwnaed cynnydd sylweddol o ran gweithredu [Strategaeth 'Adeiladu Dyfodol Mwy Diogel Gyda'n Gilydd' \(2022-24\)](#), Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuentid Caerdydd yn enwedig wrth ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ac ymgorffori eu hadborth i fireinio gwasanaethau ac ymyriadau. Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuentid yn mabwysiadu ymagwedd sy'n seiliedig ar drawma yn gyson gyda phlant a'u teuluoedd, gan bwysleisio gwaith sy'n seiliedig ar berthynas a'r model 'oedolyn y gellir ymddiried ynddo'.

Adlewyrchir cynnydd yn nata'r Gwasanaeth ar gyfer 2023/24: mae'r niferoedd sy'n dod i mewn i'r system cyfiawnder ieuentid am y tro cyntaf wedi gostwng i'r lefel isaf erioed (30); mae troseddau a chanlyniadau ar eu lefelau isaf (51 o bobl ifanc, 103 o droseddau); ac mae cyfraddau aildroseddu wedi gostwng yn sylweddol, gan ostwng ymhell islaw'r targed o 40% i 28.6%.

Wrth symud ymlaen, bydd ffocws yn parhau i gael ei roi ar weithio mewn partneriaeth i gasglu data perthnasol mewn perthynas â thrais - nid troseddau yn unig, ond ymddygiadau, er mwyn gwneud atgyfeiriadau diogelu perthnasol, cyflwyno ffurflenni gwybodaeth am bartneriaid, cydnabod gwendidau mewn perthynas â chamfanteisio a gweithio i darfu ar y rheini sy'n camfanteisio ar bobl ifanc.

Plant a Theuluoedd

Mae'r BGC yn parhau i gefnogi'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau yn radical i blant a theuluoedd, gan ganolbwyntio ar atal ac integreiddio gwasanaethau, yn enwedig ar gyfer y rheini sydd mewn perygl o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Drwy gydol 2023/24, defnyddiwyd yr ymagwedd 'Meddwl Ynghyd', gyda 426 o sgysiau wedi'u hwyluso, gan gynnwys ymarferwyr o sawl asiantaeth. Mae'r ymagwedd hon yn meithrin dull mwy cydweithredol o gefnogi teuluoedd, gan ganiatáu ar gyfer adnabod pryderon ac ymyriadau integredig yn gynnar, gan leihau'r angen am atgyfeiriadau pellach at wasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol.

Yn ogystal, drwy'r fenter Ysgolion Bro, mae cynllun pilot ar y gweill yng nghlwstwr ysgolion Gorllewin Caerdydd i wella mynediad at gymorth ataliol ac

ymyrraeth gynnar i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae Swyddog Cyswllt ac Ymgynghorydd Helpu Teuluoedd amser llawn wedi'u lleoli yn y clwstwr, gan weithio gyda phlant a phobl ifanc i asesu anghenion, nodi cefnogaeth briodol, a chyflawni ymyriadau uniongyrchol, wedi'u targedu, i fynd i'r afael ag anghenion y teulu cyfan.

Er mwyn dangos manteision cymorth cynnar a mesurau ataliol, datblygwyd Cyfrifiannell Osgoi Costau Cymorth Cynnar, gan dynnu sylw at arbedion costau darpariaeth cymorth cynnar yng Nghaerdydd. Yn 2023/24, amcangyfrifir bod y mesurau hyn wedi arbed £9,515,734.30.

Cefnogi Gofalwyr Di-dâl

Mae rhaglen Gofalwyr Di-dâl, Byw'n Dda y BPRh yn parhau i ddatblygu. Yn 2023, cyhoeddwyd Siarter Gofalwyr Di-dâl Caerdydd a'r Fro, a oedd yn amlinellu ymrwymadau sy'n hanfodol i gefnogi gofalwyr di-dâl nawr ac yn y dyfodol, gan roi cyfarwyddyd ar gyfer datblygu cymorth i ofalwyr di-dâl ledled Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae cyflawniadau eraill dros y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys parhau i ddarparu'r Porth Gofalwyr, a gafodd 1,378 o gysylltiadau â gofalwyr di-dâl i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chyfeirio; cefnogi 64 o ofalwyr ifanc newydd drwy Wasanaeth Gofalwyr Ifanc Caerdydd; a darparu, drwy C3SC, cyfleoedd 'seibiant byr' i 2,255 o ofalwyr di-dâl.

Dros y flwyddyn i ddod, bydd ffocws o'r newydd ar ddatblygu ymwybyddiaeth gofalwyr trwy achrediad a hyfforddiant sy'n Deall Gofalwyr, yn ogystal ag ymgysylltu'n ehangach â gofalwyr di-dâl trwy gynulliad rhanbarthol o Ofalwyr Di-dâl.



Amcan Lles 2


Mae Caerdydd yn Lle
Gwych i Dyfu'n Hŷn












Cyflwyniad

Mae'r boblogaeth yng Nghaerdydd yn heneiddio, fel y mae ledled Cymru. Mae pobl hŷn yn ased hynod werthfawr a phwysig i'r ddinas, gan gyfrannu'n sylweddol at economi'r ddinas a chymunedau lleol. Fodd bynnag, mae'r newidiadau demograffig hyn hefyd yn gosod straen sylweddol ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig o ran darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r penderfyniadau a'r camau a gymerwyd, mewn cydweithrediad ar draws partneriaid gwasanaethau cyhoeddus, yn ganolog wrth fynd i'r afael â'r heriau sy'n dod i'r amlwg a sicrhau y gall unigolion gynnal iechyd da ac annibyniaeth yn eu cartrefi wrth iddynt heneiddio. Uchelgais BGC Caerdydd felly, yw i'r ddinas fod yn lle gwych i dyfu'n hŷn, lle mae pobl hŷn wedi'u grymuso, yn iach ac yn fodlon gyda chymorth gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol rhagorol ac wedi'u hintegreiddio i bob rhan o fywyd cymunedol.



Mesur Cynnydd

| Y dangosydd canlyniadau lefel dinas y mae'r BGC yn ceisio cael effaith arno | Dyddiad y data diweddaraf | Y data diweddaraf | Data Cymharol Ddiweddar | Tueddiad |
|--|---------------------------|-------------------|-------------------------|---|
| Canran y bobl 65 oed ac yn hŷn sy'n nodi bod eu hiechyd cyffredinol yn dda iawn neu'n dda | 2022/2023 | 66.8 % | 65.3 % (2021/2022) |  |
| Canran y bobl 65 oed ac yn hŷn sydd â phwysau iach | 2022/2023 | 46.6 % | 33.1 % (2021/2022) |  |
| Canran y bobl 65 oed ac yn hŷn sy'n nodi eu bod yn teimlo eu bod yn rhan o unrhyw benderfyniadau a wneir am eu gofal a'u cymorth | 2019/20 | 78.9 % | 78.4 % (2018-19) |  |
| Canran y bobl 65 oed ac yn hŷn sy'n nodi eu bod wedi derbyn yr wybodaeth neu'r cyngor cywir pan fo angen | 2019/20 | 77.7 % | 80.2 % (2018-19) |  |
| Canran yr oedolion 65 oed ac yn hŷn sy'n nodi eu bod yn byw yn y cartref cywir iddyn nhw | 2019/20 | 86.7 % | 86.2 % (2018-19) |  |
| Canran y bobl 65 oed ac yn hŷn sy'n dweud eu bod yn unig | 2019/20 | 84.8 % | 86.0 % (2018-19) |  |
| Bodlonrwydd pobl hŷn ar fywyd ¹ | 2022/2023 | 83.9 % | 82.3 % (2021/2022) |  |

1 Canran y bobl hŷn (65 oed ac yn hŷn) sy'n rhoi sgôr o 7 neu uwch allan o 10 ar gyfer boddhad bywyd.

Trosolwg o waith y BGC yn 2023/24

Sefydlu gwasanaethau iechyd a gofal integredig, lleol

Y rhaglen @Gartref, Heneiddio'n Dda, dan arweiniad y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, yw'r cyfrwng cyflawni ar gyfer sefydlu gwasanaethau iechyd a gofal integredig, lleol, sy'n canolbwyntio ar fodloni a gwella iechyd a lles y boblogaeth leol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ffocws wedi'i roi ar fabwysiadu model ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol integredig; lansio gwasanaeth ymateb argyfwng newydd, Diogel@Gartref, sydd â'r nod penodol o gefnogi pobl i aros gartref os nad oes angen iddynt ddod i'r ysbyty; ac ehangu gwaith tîm amlddisgyblaethol gyda'r clwstwr.

Dros y flwyddyn i ddod, rhoddir ffocws ar ehangu'r model clwstwr ymhellach i wella'r ffordd y mae meddygon teulu a gwasanaethau eraill mewn ardal yn gweithio'n well gyda'i gilydd i gefnogi'r gymuned, yn ogystal ag adeiladu ar gam cyntaf y gwasanaeth ymateb i argyfwng, Diogel@Gartref.

Gweithio Tuag at Ddinas sy'n Dda i Bobl Hÿn

Cyhoeddwyd yr [Adroddiad Blynyddol Caerdydd sy'n Dda i Bobl Hÿn](#) cyntaf ar ddiwedd 2023 ac fe'i cyflwynwyd i Sefydliad Iechyd y Byd a'i gydnabod ganddo. Mae'r adroddiad yn nodi wyth ymrwymiad sy'n dda i bobl hÿn y ddinas ac yn amlinellu'r cynnydd a wnaed yn eu herbyn hyd yma. Mae rhai cyflawniadau allweddol yn cynnwys creu [Gwefan Caerdydd sy'n Dda i Bobl Hÿn](#), gweithio gyda sefydliadau addysg uwch i gynorthwyo mewn amrywiol brosiectau ymchwil sy'n gysylltiedig ag oedran, a sefydlu Fforwm Caerdydd sy'n Dda i Bobl Hÿn. Mae'r Fforwm yn dwyn ynghyd bobl hÿn, grwpiau pobl hÿn a phartneriaid sy'n dda i bobl hÿn i annog cyfleoedd ar gyfer adborth, cyd-greu a chydweithio, ac mae'n cyfarfod bob chwarter. Mae meysydd pellach o gynnydd nodedig yn cynnwys cefnogi pobl hÿn i mewn i waith gyda phenodi mentoriaid cyflogaeth a darparu hyfforddiant mewn pynciau fel sgiliau digidol, gwasanaeth cwsmeriaid, a chymorth cyntaf.

Wrth edrych ymlaen, mae blaenoriaeth ar gyfer 2024/25 yn cynnwys datblygu Cynllun Gweithredu Caerdydd sy'n Dda i Bobl Hÿn, gweithio gyda phobl hÿn, yn ogystal â phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol eraill, i ddeall blaenoriaethau. Yn ogystal, rhoddir ffocws ar wella argaeledd Cyngor sy'n Dda i Bobl Hÿn, a gwneud yn fawr o sianeli cyfathrebu i gyflwyno mentrau targedig - er enghraifft, iechyd - sy'n effeithio ar bobl hÿn. Ar ben hynny, bydd gwaith yn cael ei wneud i annog partneriaid, rhanddeiliaid a busnesau i addo dod yn gyflogwr sy'n Dda i Bobl Hÿn

Gweithio tuag at ddod yn Ddinas sy'n Deall Dementia.

Nod y rhaglen Dementia Heneiddio'n Dda, dan arweiniad y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, yw codi ymwybyddiaeth o ddementia a'i benderfynyddion wrth weithio i ddatblygu gwasanaethau yn y gymuned sy'n galluogi mynediad teg ac amserol at ddiagnosis a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ffocws wedi ei roi ar ddatblygu [llyfryn gwybodaeth](#) ar sut i leihau'r risg o ddatblygu dementia - y cyntaf o'i fath yng Nghymru - a lansiwyd yn ystod Wythnos Gweithredu ar Dementia 2024. Gwnaed cynnydd sylweddol o ran cydgynhyrchu ac ymgysylltu, a sefydlwyd Rhwydwaith Hyrwyddwyr Dementia. Yn ogystal, mae'r model newydd ar gyfer datblygu sefydliadau sy'n deall Dementia wedi gweld cynnydd enfawr yn y nifer sy'n manteisio arno, gyda 403 o sefydliadau'n addo helpu pobl i deimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn gallu gwneud y pethau maen nhw'n eu mwynhau yn eu cymunedau eu hunain.

Wrth symud ymlaen, rhoddir ffocws ar gysylltu gwasanaethau gofal a chymorth cymunedol, yn ogystal â hyrwyddo'r llawlyfr atal i rymuso pobl i gymryd rheolaeth dros eu hiechyd eu hunain a lleihau eu risg o ddatblygu dementia.



Amcan Lles 3


Cefnogi Pobl Allan o Dlodi



Cyflwyniad

Mae Caerdydd wedi profi twf economaidd sylweddol dros y tri degawd diwethaf; fodd bynnag, mae'r patrymau parhaus o dlodi ac anghydraddoldeb o genhedlaeth yn ôl, yn parhau. Mae'r argyfwng costau byw presennol, a waethygir gan bwysau chwyddiant, yn dwysáu'r straen ariannol ar aelwydydd ledled y ddinas, gan wneud eitemau dyddiol hanfodol yn ddrytach. Gan ddod mor fuan ar ôl pandemig COVID-19, mae hyn wedi dwysáu'r pwysau y mae llawer o bobl yn ei wynebu ac wedi dyfnhau'r anghydraddoldebau presennol.





Mae BGC Caerdydd yn cydnabod y bydd angen gweithredu partneriaeth ar sawl agwedd ar gefnogi pobl allan o dlodi. Mae hyn yn cynnwys cynyddu cyfleoedd gwaith a swyddi sy'n talu o leiaf Cyflog Byw Gwirioneddol, gwella canlyniadau iechyd a chefnogi pobl sy'n cysgu ar y stryd i adael strydoedd y ddinas.



Mesur Cynnydd

| Y dangosydd canlyniadau lefel dinas y mae'r BGC yn ceisio cael effaith arno | | Dyddiad y data diweddaraf | Y data diweddaraf | Data Cymharol Ddiweddar | Tueddiad |
|---|-------|---------------------------|-------------------|---|----------|
| Canran y bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn amddifadedd materol ¹ | | 2022/23 | 15% | 12% (2021/22) | |
| Nifer y cyflogwyr ag achrediad Cyflog Byw Gwirioneddol | | Mawrth 2024 | 217 | 197 (Chwefror 2023) | |
| Nifer y gweithwyr sy'n cael codiad cyflog i'r Cyflog Byw Gwirioneddol o leiaf | | Mawrth 2024 | 13,332 | 10,873 (Chwefror 2023) | |
| Disgwyliad oes iach adeg geni (dynion a menywod) | Gwryw | 2018-20 | 62.87 oed | 61.88 oed (2017-19) | |
| | Benyw | | 65.86 oed | 62.53 oed (2017-19) | |
| Bwlch amddifadedd disgwyliad oes iach adeg geni (dynion a menywod) | Gwryw | 2018-20 | 13.7 oed | 19.7 oed (2017-19) | |
| | Benyw | | 18.5 oed | 14.6 oed (2017-19) | |
| Canran y babanod isel eu pwysau geni | | 2022 | 6.4% | 6.4% (2021) | |
| Canran yr oedolion sy'n bwyta 5 dogn neu fwy o ffrwythau a llysiau bob dydd (% wedi'i safoni yn ôl oedran) | | 2021/22 & 2022/23 | 40.6% | Oherwydd effaith y pandemig ar y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gasglu'r ystadegau hyn, ni ddylid cymharu canlyniadau o 2020/21 ymlaen â data blaenorol. | |
| Canran yr oedolion sy'n bwyta 5 dogn o ffrwythau a llysiau y dydd: bwlch amddifadedd (y gwahaniaeth rhwng canrannau ar gyfer ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf â'r ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf Caerdydd) | | 2023 | 14.0 | 16.0 (2022) | |

¹ Mae dadansoddiad yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (AGEHI), gan ddefnyddio Maes Incwm Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019), i'w weld yn adroddiad Caerdydd yn 2024.

| Y dangosydd canlyniadau lefel dinas y mae'r BGC yn ceisio cael effaith arno | Dyddiad y data diweddaraf | Y data diweddaraf | Data Cymharol Ddiweddar | Tueddiad |
|---|---------------------------|-------------------|---|---|
| Canran yr oedolion sy'n actif am lai na 30 munud yr wythnos (% wedi'i safoni yn ôl oedran) | 2021/22 a 2022/23 | 21.4 % | Oherwydd effaith y pandemig ar y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gasglu'r ystadegau hyn, ni ddylid cymharu canlyniadau o 2020/21 ymlaen â data blaenorol. | |
| Canran yr oedolion sy'n weithgar am lai na 30 munud mewn wythnos: bwlc amddifadedd (y gwahaniaeth rhwng canrannau ar gyfer ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf a'r ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf Caerdydd) | 2023 | 13.3 % | 11.7 (2022) |  |
| Canran yr oedolion sy'n dweud bod eu pwysau'n iach (% wedi'i safoni yn ôl oedran) ² | 2021/22 a 2022/23 | 39.3 % | Oherwydd effaith y pandemig ar y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gasglu'r ystadegau hyn, ni ddylid cymharu canlyniadau o 2020/21 ymlaen â data blaenorol. | |
| Canran yr oedolion sy'n smygwyr ar hyn o bryd (% wedi'i safoni yn ôl oedran) | 2021/22 a 2022/23 | 12.3 % | Oherwydd effaith y pandemig ar y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gasglu'r ystadegau hyn, ni ddylid cymharu canlyniadau o 2020/21 ymlaen â data blaenorol. | |
| Fforddiadwyedd Tai: Cymhareb pris tai i'r cyflog blynyddol gros canolrifol | 2023 | 7.29 | 7.99 (2022) |  |
| Nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd | Ebrill 2024 | 20 | 20 (Ebrill 23) |  |
| Tlodi bwyd: Nifer y parseli bwyd argyfwng sydd wedi'u dosbarthu o ganolfannau dosbarthu Caerdydd gan The Trussel Trust ³ | 2023/24 | 20,204 | 19,253 (2022/23) |  |
| Canran yr aelwydydd mewn tlodi tanwydd | 2018 | 9 % | Nid yw'r ffigur cymharol ar gael. | |

2 Sylwer bod canran yr oedolion sy'n dweud bod eu pwysau'n iach yn ôl amddifadedd wedi'i chynnwys yn adroddiad Caerdydd yn 2024 - mae'r data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer 2009-12.

3 Ceir rhagor o ddata ar ddiffyg diogeledd bwyd yn adroddiad Caerdydd yn 2024.

Trosolwg o waith y BGC yn 2023/24

Gweithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol

Mae Caerdydd yn parhau i fod yn un o ddinasoedd mwyaf blaenllaw'r DU o ran hyrwyddo'r Cyflog Byw Gwirioneddol. O fis Mai 2024, mae 224 o gyflogwyr Cyflog Byw achrededig yng Nghaerdydd, sy'n cyflogi dros 77,730 o weithwyr, gyda thros 13,330 yn derbyn codiad cyflog i'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Ar ben hynny, ym mis Mai 2024, cyfrifodd Prifysgol Caerdydd fod y cynnydd i'r Cyflog Byw Gwirioneddol ers 2012 wedi ychwanegu £82.7 miliwn pellach i'r economi leol.

Er gwaethaf y tueddiadau cadarnhaol hyn, mae'r amgylchedd economaidd ehangach yn parhau i fod yn heriol. Gwnaeth 15 sefydliad achrededig yng Nghaerdydd roi'r gorau i fasnachu yn 2023/24. Er i 36 o sefydliadau newydd ennill achrediad yn yr un cyfnod, arweiniodd hyn at gynnydd net o 20 o sefydliadau yn unig. O ganlyniad, mae cyrraedd y targed o 300 o gyflogwyr achrededig erbyn mis Tachwedd 2025 yn ymddangos yn heriol.

Yn y dyfodol, bydd ymdrechion yn cael eu rhoi ar annog sefydliadau mewn sectorau sydd â chyfraddau achredu isel ar hyn o bryd i geisio achrediad. Mae'r sectorau targedig yn cynnwys manwerthu, lletygarwch a phractisau gofal iechyd fel swyddfeydd meddygon teulu a deintyddion.



Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd

Er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, mae partneriaid BGC Caerdydd yn gweithio i weithredu ymagwedd system gyfan sy'n blaenoriaethu ac yn ehangu pwysigrwydd atal ar draws cwrs bywyd:

- **Sgrinio'r coluddyn:** Mae partneriaid yn parhau i weithio ar y cyd i rannu negeseuon hyrwyddo sgrinio mewn ffordd gydlynol, wrth gasglu data a thystiolaeth i nodi'r grwpiau poblogaeth hynny sydd â'r nifer isaf sy'n manteisio ar gyfleoedd sgrinio. Mae hyn yn dangos patrymau cyson o nifer is o bobl yn manteisio ar gael eu coluddyn wedi sgrinio sy'n gysylltiedig â grwpiau oedran iau, dynion, pobl sy'n byw mewn ardaloedd sy'n profi amddifadedd a rhai cymunedau lleiafrifoedd ethnig. Mae'r data diweddaraf ar gyfer y nifer sy'n manteisio ar gael eu coluddyn wedi sgrinio yn dangos bod y nifer hynny yng Nghaerdydd wedi cynyddu o 60% yn 2020/21 i 65.4% yn 2021/22. Er bod y cynnydd hwn yn gadarnhaol, mae'r nifer sy'n manteisio ar gael eu sgrinio wedi aros yn sefydlog neu hyd yn oed wedi lleihau mewn rhai rhannau o'r ddinas, yn fwyaf nodedig yn ardaloedd clwstwr Dinas Caerdydd a Ddedwyrain Caerdydd. Yn y dyfodol, bydd gwaith wedi'i dargedu yn cael ei wneud i hyrwyddo'r nifer sy'n manteisio ar gael eu coluddyn wedi sgrinio mewn ardaloedd lle ceir llai o bobl yn manteisio ar gyfleoedd sgrinio.
- **Lleihau nifer y bobl sy'n smygu:** Yn dilyn targed uchelgeisiol Llywodraeth Cymru i Gymru fod yn ddi-fwg erbyn 2030, mae gwaith yn mynd rhagddo ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg i gyflawni ffigur nifer yr achosion o smygu o 5%¹ neu lai erbyn 2030; ar hyn o bryd, 13% yw ffigur nifer yr achosion. Er mwyn cyflawni'r uchelgais hwn, mae gwaith yn mynd rhagddo, mewn partneriaeth, i gyflawni camau gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n atal pobl rhag dechrau smygu a helpu smygwyr presennol i roi'r gorau iddi, gan gynnwys cynnal rhaglenni rhoi'r gorau i smygu. Cydnabyddir bod cyfraddau smygu a defnyddio cynhyrchion tybaco eraill yn amrywio rhwng gwahanol grwpiau, fel y rheini sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd yn economaidd-gymdeithasol, pobl â chyflyrau iechyd meddwl, a'r rheini o rai cefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Yn

1 Deellir mai dyma'r trothwy lle gallai'r epidemig tybaco ddod yn anghynladwy.



ogystal, mae'r rheini sy'n dal i smygu'n aml yn wynebu heriau ychwanegol, gan ofyn am gymorth mwy dwys dros gyfnod hwy o amser. Yn y dyfodol, rhoddir ffocws penodol ar gefnogi'r grwpiau hyn.

- **Symud Mwy, Bwyta'n Iach:** Mae'r rhaglen Symud Mwy, Bwyta'n Iach (SMBI) yn parhau i gael ei gyrru ymlaen gan bartneriaid. Sefydlwyd Grŵp Gweithredu SMBI, er mwyn cryfhau ysgogiad a chydweithio partneriaeth, gyda chynnydd ar draws 2023/24 gan gynnwys datblygu polisi o hysbysebu iachach a llywio Strategaeth a Ffefrir Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd, gan nodi polisiâu strategol a allai fod ganddynt ffocws cryfach ar iechyd. Mae cynlluniau'r dyfodol yn cynnwys adolygu fframwaith SMBI ar gyfer 2024-2030, gan adeiladu ar ddysgu presennol i gryfhau cydweithredu a chreu amodau sy'n annog trigolion i symud mwy a bwyta'n iach.

Cynhwysiant Iechyd: Mae partneriaid BGC Caerdydd yn cydweithio i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a chymdeithasol eithafol ymysg y grwpiau ymylol ac sy'n fwyaf agored i niwed², drwy ddarparu gwasanaeth cynhwysiant iechyd arbenigol, sydd wedi'i dargedu at unigolion sydd ar ymyl y dibyn o ran anghydraddoldeb. Cynigir model a fyddai'n golygu y bydd gweithwyr iechyd proffesiynol a phartneriaid perthnasol yn cydleoli mewn hyb, gan ddefnyddio dull 'dim drws anghywir'. Cytunwyd ar gyllid ar gyfer Cam 1, a fydd yn gweld allgymorth y gwasanaethau cynhwysiant iechyd presennol yn cael eu hehangu i leoliadau newydd, gan gynnwys hosteli, yn ogystal

â chreu tîm cynhwysiant iechyd amlasiantaethol arbenigol mewn Adran Damweiniau ac Achosion Brys.

Atal Digartrefedd a Chysgu ar y Stryd

Ym mis Rhagfyr 2023, cyhoeddodd Caerdydd argyfwng tai mewn ymateb i'r pwysau eithriadol a'r galw di-baid am wasanaethau digartrefedd. Bryd hynny, roedd pob un o'r 1,699 o unedau llety dros dro yng Nghaerdydd yn llawn, gyda 707 o deuluoedd, 806 o bobl sengl, a 186 o bobl ifanc yn byw ar draws y ddinas. Roedd rhestrau aros ar gyfer llety dros dro wedi cynyddu 150% ers 2021, er gwaethaf cynnydd sylweddol yn yr unedau sydd ar gael.

Mae ymatebion ar unwaith i'r argyfwng tai wedi cynnwys cryfhau gwasanaethau Atal Digartrefedd i ddiwallu'r angen cynyddol am gymorth a chanolbwyntio ar ymyrraeth gynnar. Mae mwy o waith cydgyssylltiedig hefyd yn cael ei wneud ar draws gwasanaethau i ddatrys problemau ac atal digartrefedd. O ganlyniad, mae'r amseroedd aros ar gyfer apwyntiad atal digartrefedd wedi gostwng o 30 diwrnod gwaith ym mis Medi 2022 i gyfartaledd o wyth diwrnod gwaith yn ystod 2023/24.


Oherwydd maint y galw, mae gwestai ar hyn o bryd yn rhan hanfodol o ddarpariaeth llety dros dro, sy'n hanfodol o ran cartrefu pobl sengl a theuluoedd digartref. Fodd bynnag, mae'r dull hwn yn ddrud ac nid yw'n cynnig yr ateb hirdymor gorau i'r rheini yr effeithir arnynt. Mae cynlluniau tymor canolig yn cynnwys defnyddio safleoedd gwag ar gyfer 'defnydd yn y cyfamser' trwy adeiladu cartrefi modiwlwr y gellir eu hadleoli unwaith y bydd datblygiad parhaol ar y safleoedd hyn yn dechrau. Er mwyn cynyddu nifer y tai fforddiadwy yn y ddinas yn y tymor hwy, mae'r rhaglen datblygu tai, sy'n ceisio darparu 4,000 o gartrefi newydd i'r ddinas, yn parhau. Hyd yma, mae'r rhaglen wedi darparu 1,115 o gartrefi newydd.

² Mae'r cysyniad o gynhwysiant iechyd fel arfer yn cynnwys ymfudwyr sy'n agored i niwed; pobl sy'n profi digartrefedd; pobl sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar; cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr; a phobl sy'n cymryd rhan mewn gwaith rhyw.



Amcan Lles 4


Cymunedau Diogel, Hyderus a Grymus









Cyflwyniad

Mae cymunedau wrth wraidd lles. Maent yn chwarae rhan hanfodol wrth gysylltu pobl â'r rhwydweithiau cymdeithasol a'r gwasanaethau dyddiol y mae pob un ohonom yn dibynnu arnynt, ac maent yn gyfoethog o wybodaeth a sgiliau, gan gynnwys dealltwriaeth ddofn o ardaloedd lleol.

Mae Caerdydd yn parhau i fod yn un o'r dinasoedd mwyaf diogel a chynhwysol yn y DU. Felly, bydd partneriaid BGC Caerdydd yn parhau i weithio mewn partneriaeth agos i fynd i'r afael â throseddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a phob math o gamfanteisio yng nghymunedau'r ddinas, gan ddarparu'r amgylchedd, y gwasanaethau a'r cymorth sydd eu hangen i sicrhau eu bod yn ddiogel, yn hyderus ac wedi'u grymuso.



Mesur Cynnydd

| Y dangosydd canlyniadau lefel dinas y mae'r BGC yn ceisio cael effaith arno | Dyddiad y data diweddaraf | Y data diweddaraf | Data Cymharol Ddiweddar | Tueddiad |
|---|--------------------------------|-------------------|---|---|
| Canran y bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o wahanol gefndiroedd yn dod ymlaen yn dda â'i gilydd; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch. | 2021/22 | 63% | 69% (2020/21) |  |
| Canran y bobl sy'n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol. | 2021/22 | 33% | 25% (2020/21) |  |
| Pobl yn teimlo'n ddiogel (yn eu cartref, wrth gerdded yn yr ardal leol ac wrth deithio). | 2021/22 | 63% | 66% (2020/21) |  |
| Cyfran y bobl sydd wedi troseddu sy'n aildroseddu (oedolion a phobl ifanc). | Gorffennaf 2021 – Mehefin 2022 | 33.4% | 34.0% (Gorffennaf 2020 – Mehefin 2021) |  |
| Canran y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a adroddodd welliant yn eu hansawdd bywyd. | 2023/24 | 74% | 75% (2022/23) |  |
| Canran yr oedolion (16 oed ac yn hŷn) sy'n gwirfoddoli | 2022/23 | 32% | 30% (2021/22) |  |

Trosolwg o waith y BGC yn 2023/24

Diogelwch Cymunedol

Mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol y BGC yn parhau i ddatblygu ac yn gweithredu strategaethau i fynd i'r afael â throseddu, anhrefn, camddefnyddio sylweddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac i ddiogelu pobl rhag camdriniaeth, camfanteisio a niwed. Ar hyn o bryd mae gan y Bartneriaeth bedwar maes blaenoriaeth craidd:

- **Atal Trais:** Mae hyn yn cynnwys trais sy'n ymwneud â throseddu a chamfanteisio cyfundrefnol, trais yn economi'r nos a thrais yn erbyn menywod a merched. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mewn ymateb i'r Ddyletswydd Trais Difrifol, mae Asesiad Anghenion Strategol wedi'i gynnal, ochr yn ochr â phroffil ar sail tystiolaeth o drais yng Nghaerdydd. Datblygwyd Strategaeth Atal Trais ddrafft wedi hynny, ynghyd â Chynllun Cyflawni o brosiectau ac ymyriadau partneriaeth. Bydd y Strategaeth derfynol yn cael ei chyhoeddi ym mis Medi 2024. Yn ategol i'r gwaith hwn fu datblygu a chyhoeddi [Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol](#) newydd ar gyfer 2023-2028, gan gynnwys [Cynllun Gweithredu](#).
- **Datrys Problemau:** Mae'r prif ffocws ar fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae dull 'cynllun gweithredu' lleol yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, gyda wardiau wedi'u blaenoriaethu gan gynnwys Adamsdown/y Sblot, Butetown, Elái/ Caerau, a chanol y ddinas. Yn y dyfodol, bydd dangosfwrdd perfformiad yn cael ei greu i fonitro'r camau gweithredu arfaethedig ym mhob ward a'r canlyniadau disgwylidig.
- **Ffyrdd o Fyw ar y Stryd ac Anghenion Cymhleth:** Mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag achosion sylfaenol defnyddio sylweddau a'i effaith ar gymunedau, yn enwedig mynd i'r afael ag anghenion y digartref a rhai o'r bobl sy'n fwyaf agored i niwed ar strydoedd y ddinas. Mae'r gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf, mewn partneriaeth â Bwrdd Cynllunio Ardal (BCA) Camddefnyddio Sylweddau Caerdydd a'r Fro,

wedi cynnwys adolygiad o sgrinio alcohol mewn gofal sylfaenol ac eilaidd; datblygu profion cyflym ar gyffuriau ymhellach, gan alluogi lledaenu gwybodaeth yn gyflym am sylweddau sy'n peri pryder i bartneriaid; a gweithredu dull lleihau niwed o ran rheoli cymryd cyffuriau o fewn ystafelloedd preifat mewn safleoedd hostel.

- **CONTEST:** Mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar weithredu Strategaeth CONTEST (Gwrthderfysgaeth) Llywodraeth y DU, gan ganolbwyntio ar bedair 'P' y strategaeth: *Prevent, Pursue, Protect a Prepare*. Dros y 12 mis diwethaf, mae partneriaid wedi gweithio i ymateb i ganfyddiadau allweddol y Proffil Lleol Gwrthderfysgaeth, yn ogystal â chynnal goruchwyliaeth o'r holl ddarpariaeth Atal statudol, gan gynnwys llwybrau cyfeirio.

Wrth symud ymlaen, bydd gwaith yn parhau i hyrwyddo aliniad strategol a gweithredol agosach rhwng partneriaid, gan ganolbwyntio ar gyflawni camau gweithredu partneriaeth y cytunwyd arnynt.

Diogelu

Dros y flwyddyn ddiwethaf, gwnaed cryn dipyn o waith i symleiddio trefniadau partneriaeth ar gyfer diogelu. Mae'r trefniadau llywodraethu sy'n cefnogi Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro wedi'u cryfhau, gyda mwy o ffocws ar wneud penderfyniadau sy'n cael eu gyrru gan ddata. Yn ogystal, mae cynnydd da wedi'i wneud yn erbyn blaenoriaethau 2023/24 y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, fel yr amlinellir yn [Adroddiad Blynyddol](#) y Bwrdd.

Yn ogystal, mae'r model Diogelu Pobl Ifanc rhag Camfanteisio (DPIRhC) yn parhau i gael ei weithredu'n effeithiol. Sefydlwyd Partneriaeth DPIRhC, gan ddod â dros 50 o sefydliadau statudol a thrydydd sector ynghyd, i ddatblygu ac ymgorffori dull cyd-destunol o atal ac amharu ar ecsbloetio plant a phobl ifanc. Dros y flwyddyn ddiwethaf, canolbwyntiwyd ar godi ymwybyddiaeth o'r gwahanol fathau o gamfanteisio, gan gryfhau gweithio mewn partneriaeth, ymgorffori dulliau diogelu cyd-destunol, a sicrhau bod canllawiau, gweithdrefnau, llwybrau a gwasanaethau clir ar waith i ymateb i gamfanteisio.

Gofal Cywir, Person Cywir

Ym mis Chwefror 2024, dechreuodd Heddlu De Cymru weithredu'r model Gofal Cywir, Person Cywir (GCPC) yn raddol. Mae GCPC yn newid y ffordd y mae'r Heddlu yn ymateb i alwadau sy'n ymwneud â iechyd meddwl, pryder am faterion lles a gofal cymdeithasol. Ei nod yw sicrhau bod yr asiantaeth gywir yn ymdrin â galwadau sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, yn hytrach na bod yr Heddlu'n ymateb yn gyntaf yn ddiodyn. Cytunodd aelodau'r BGC y dylid sefydlu gweithgor sy'n canolbwyntio ar gyflawni gweithredu diogel, mewn amserlenni priodol, gan sicrhau bod yr holl bartneriaid yn deall y goblygiadau a bod mesurau lliniaru ar waith i ymateb. Bydd y dull hwn ar y cyd yn parhau wrth i'r model GCPC gael ei gyflwyno.

Cynllun Cymunedol Trelái a Chaerau

Yn dilyn y digwyddiadau trasig yn Nhrelái ym mis Mai 2023, a sbardunodd anhrefn difrifol, arweiniwyd ymarfer gwranddo cymunedol manwl gan Gweithredu yng Nghaerau a Threlái¹ a Grŵp Llywio Cymunedol Trelái a Chaerau newydd i ddeall blaenoriaethau'r gymuned ar gyfer y dyfodol. Sefydlwyd Gweithgor BGC Caerdydd, yn ogystal â Grŵp Gweinidogol, i gefnogi'r gwaith.

Ymatebodd dros 1,200 o bobl i'r ymarfer ar draws 47 o ddiwyddiadau rhwng mis Awst a mis Rhagfyr 2023. Yn dilyn hynny, cafodd y materion allweddol a godwyd gan bobl eu grwpio'n chwe thema eang ar gyfer gweithredu: plant a phobl ifanc; diogelwch a diogelwch cymunedol; lleoedd a'r amgylchedd; iechyd a lles; cyflogaeth, safonau byw a chostau byw; cyfathrebu ac adeiladu cymunedol. Roedd y gwaith ymgysylltu helaeth yn sail i greu Cynllun Cymunedol ar gyfer Trelái a Chaerau, sy'n nodi camau i fynd i'r afael â'r anghenion a'r pryderon a godwyd.

Derbyniwyd y Cynllun Cymunedol gan BGC Caerdydd a'r Grŵp Gweinidogol ym mis Mai 2024, a rhoddwyd ymrwymiad i gyflawni'r Cynllun. Bydd BGC Caerdydd yn parhau i ddarparu cefnogaeth a goruchwyliaeth yn y dyfodol, gan sicrhau bod yr ymrwymadau'n cael eu cyflawni ar gyfer cymuned Trelái a Chaerau.

Cefnogi Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches

Mae Cymru'n Genedl Noddfa ac mae Caerdydd yn falch o ddarparu cefnogaeth a lloches i'r rheini sy'n ffoi rhag gwrthdaro byd-eang. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae dros 1,200 o wladolion Wcráin wedi eu croesawu i'r ddinas ar gyfer anheddiad hirdymor, wrth fod 800 o bobl o Affganistan wedi cael cymorth i lety pontio lleol dros dro fel rhan o broses genedlaethol lle maent yn cael eu paru i gartrefi hirdymor ledled y DU. Gall y prosesau hyn roi straen ar rannau o'r system gwasanaethau cyhoeddus, fodd bynnag, mae cydweithio'n agos yn hanfodol i ddarparu mynediad at y llety, iechyd, cyflogaeth a'r gwasanaethau cynghori arbenigol sydd eu hangen.

Gwelwyd pwysau galw sylweddol rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2023, yn dilyn penderfyniad gan y Swyddfa Gartref i gyflymu'n sylweddol y broses o wneud penderfyniadau cymeradwyo ar rai achosion lloches. Effeithiodd hyn ar ddigartrefedd a gwasanaethau tai ehangach, yn benodol, gan fod llawer o unigolion y rhoddwyd lloches iddynt wedi cyflwyno eu hunain yn ddigartref wedyn, gan geisio cymorth i'w cefnogi i lety. Yn y dyfodol, bydd ffocws yn parhau i gael ei roi ar ymateb i anghenion uniongyrchol y rheini sy'n cyrraedd Caerdydd, wrth drosglwyddo unigolion a theuluoedd i ddarpariaeth hirdymor gynaliadwy lle y bo hynny'n bosib.

Dinas sy'n Deall Niwrowahaniaeth

Ym mis Medi 2023, pasiodd Cyngor Caerdydd gynnig a oedd yn ymrwymo i ddileu'r rhwystrau sy'n atal y rheini sydd â nodweddion a chyflyrau niwrowahanol rhag cymryd rhan mewn cymdeithas ac i weithio ledled y ddinas i wneud Caerdydd yn lle sy'n deall niwroamrywiaeth yn well Mewn ymateb, cytunodd partneriaid y BGC i ymuno â Chyngor Caerdydd i weithio tuag at ddod yn Ddinas sy'n Deall Niwrowahaniaeth, gan gynnwys creu Strategaeth a Chynllun Gweithredu Niwroamrywiaeth ledled y ddinas. Cynhaliwyd digwyddiad ledled y ddinas ym mis Mawrth 2024 i lansio'r fenter a'r camau nesaf gan gynnwys cynnal ymarfer mapio i ddeall cynlluniau gweithredu, strategaethau a mentrau presennol rhanddeiliaid allweddol a phartneriaid yng Nghaerdydd.

1 Sefydliad lleol sydd â hanes hir o gefnogi cymunedau yn Nhrelái a Chaerau.



Amcan Lles 5


Prifddinas sy'n
Gweithio Dros Gymru



Cyflwyniad

Fel canolfan o greadigrwydd, diwylliant ac amrywiaeth, mae economi Caerdydd yn chwarae rôl ganolog i Gymru. Mae'n gartref i chwaraeon, gwleidyddiaeth, cerddoriaeth a'r celfyddydau, yn cynnal digwyddiadau chwaraeon a diwylliannol rhyngwladol mawr, ac yn darparu gwasanaethau cyhoeddus arbenigol i bobl y Brifddinas-Ranbarth ehangach, yn ogystal â'r genedl.

Gan gydnabod y rôl ganolog y mae Caerdydd yn ei chwarae, mae BGC Caerdydd yn cydnabod arwyddocâd esblygu economi'r ddinas i flaenoriaethu gwella lles, yn ogystal â sicrhau cynaliadwyedd gweithgareddau economaidd. Bydd y newid strategol hwn yn denu buddsoddiad ac yn meithrin arloesedd yn ogystal â sicrhau buddion diriaethol i bobl Caerdydd a Chymru. Mae buddsoddi ac arloesi yn gatalydd ar gyfer datblygu cymunedol yn gyffredinol, gan feithrin mwy o gynhyrchiant, cyfleoedd cyflogaeth, a chyfrannu at fwy o ffyniant yn y pen draw.



Mesur Cynnydd

| Y dangosydd canlyniadau lefel dinas y mae'r BGC yn ceisio cael effaith arno | Dyddiad y data diweddaraf | Y data diweddaraf | Data Cymharol Ddiweddar | Tueddiad |
|---|-------------------------------|-------------------|-----------------------------|----------|
| Cyfradd ddiweithdra'r boblogaeth 16 oed ac yn hŷn sy'n economaidd weithgar | Ionawr - Rhagfyr 2023 | 5.0% | 3.1% (Ionawr-Rhagfyr 2022) | |
| GYC y pen | 2022 | £37,663 | £35,934 (2021) | |
| Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen | 2021 | £18,536 | £17,491 (2020) | |
| Cyflogeion â thâl bob awr sy'n is na'r cyflog byw | 2023 | 8.2% | 8.2% (2022) | |
| Canran y boblogaeth (16-64 oed) â chymhwyster FfCRh4+ ¹ | Ionawr - Rhagfyr 2023 | 50.7% | 50.7% (Ionawr-Rhagfyr 2022) | |
| Nifer y rhaglenni dysgu prentisiaeth y mae trigolion Caerdydd yn dechrau arnynt yn y sector gofal iechyd a gwasanaethau cyhoeddus | 2022/23 (Blwyddyn Academaidd) | 1,370 | 815 (2021/22) | |
| Canran y bobl sy'n mynychu neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf 3 gwaith mewn blwyddyn | 2022/23 | 83% | 84% (2019/20) | |
| Canran y bobl 16 oed ac yn hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg | 2022/23 | 12% | 13% (2021/22) | |

¹ Mae'r fframwaith rheoleiddio sy'n cefnogi NVQs (Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol) wedi'i ddisodli gan y Fframwaith Cymwysterau Rheoleiddiedig (FFCRh). Mae'r gwahanol lefelau cymhwyster i'w gweld yma.

Trosolwg o waith y BGC yn 2023/24

Cynyddu Cyfleoedd Prentisiaeth a Hyfforddeion

Mae partneriaid BGC Caerdydd yn gweithio'n weithredol i ddarparu cyfleoedd prentisiaeth a hyfforddeion, gyda'r nod o hybu cyflogaeth leol a datblygu sgiliau, yn ogystal â chynyddu amrywiaeth gweithlu'r sector cyhoeddus. Mae Cyngor Caerdydd yn gweithio i gefnogi gwasanaethau i greu cyfleoedd drwy ei Gynllun Prentisiaid a Hyfforddeion Corfforaethol. Yn 2023/24, darparodd y Cyngor 70 o leoliadau prentisiaeth a hyfforddeion newydd, gan ddod â chyfanswm y lleoliadau a ddarperir, yn ystod y flwyddyn, i 154.

Creodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, trwy ei Academi Brentisiaethau, 229 o leoliadau newydd yn 2023/24, gyda chyfanswm o 371 o leoliadau wedi'u darparu yn ystod y flwyddyn. Mae'r Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar gynyddu cyfleoedd mewn meysydd traddodiadol fel ystadau a chrefftau, yn ogystal â mewn swyddogaethau cymorth hanfodol, fel AD a Chyllid. Mae Heddlu De Cymru yn parhau i gynnig llwybrau mynediad amrywiol, gan gynnwys interniaethau, lleoliadau haf ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, a Gradd-brentisiaeth Cwnstabiliaid yr Heddlu.

Ar ben hynny, mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cymryd rhan yn Rhaglen Prentisiaethau Cymru, gan gynnig cynlluniau ar gyfer datblygu sgiliau a chymwysterau sy'n gysylltiedig â'r gwaith. Rhwng mis Ionawr 2023 a mis Mehefin 2024, darparodd y Gwasanaeth 62 o leoliadau prentisiaeth newydd. Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wedi gweithio gyda Gyrfa Cymru a chyflogwyr allanol i greu cyfleoedd hyfforddi a swyddi i bobl mewn cyfnod prawf, gan gynnwys ffeiriau gyrfaoedd a cheisiadau swyddi agored.

Ailadeiladu Cynnig Diwylliannol a Digwyddiadau'r Ddinas

Yn dilyn y pandemig, mae'r ddinas wedi gweithio'n galed i ailadeiladu ei chynnig diwylliannol a digwyddiadau, gan wneud yn fawr o effaith ei hasedau creadigol a diwylliannol, gyda gwaith partneriaeth cadarn, gan sicrhau bod y ddinas yn gallu cynnal parhad 'busnes fel arfer' trwy gyfnod unrhyw ddigwyddiadau mawr.

Mae gwaith sylweddol ar y gweill ar hyn o bryd i gyflawni Gŵyl Dinas Gerdd Caerdydd yn hydref 2024. Yn ogystal, cadarnhawyd y bydd Caerdydd yn cynnal rownd derfynol Rygbi Proffesiynol Ewropeaidd yn 2025 ac yn un o'r dinasoedd croesawu ar gyfer Pencampwriaeth Ewrop UEFA 2028. At ei gilydd, mae'r rhaglen hon yn cadarnhau safle Caerdydd fel cyrchfan rheng flaen ar gyfer digwyddiadau mawr.

Fodd bynnag, mae'r argyfyngau costau byw ac ynni yn parhau i effeithio ar adferiad economaidd, gan leihau faint o incwm gwario sydd gan lawer i wario ar ddigwyddiadau a diwylliant. Nid yw nifer yr ymwelwyr yng nghanol y ddinas wedi dychwelyd i'r lefelau cyn y pandemig eto, gyda ffigur 2023/24 yn 43 miliwn, o'i gymharu â 45 miliwn yn 2019/20.

Wrth edrych at y dyfodol, mae Cyngor Caerdydd yn arwain y gwaith o ddatblygu Strategaeth Twristiaeth a Digwyddiadau newydd, yn ogystal â Strategaeth Ddiwylliannol newydd, i hyrwyddo ac adfywio cynnig diwylliannol a digwyddiadau Caerdydd.

Hyrwyddo'r Gymraeg

[Strategaeth Caerdydd Ddwieithog 2022-27](#) yw strategaeth hyrwyddo'r Gymraeg y ddinas, sy'n dilyn strwythur Cymraeg 2050, cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Er mwyn i Gaerdydd chwarae ei rhan yn cefnogi gwledigaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, bydd gofyn i nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd gynyddu o'r 44,213 a adroddwyd yng Nghyfrifiad 2021 i 46,565 yn 2027. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd blynyddol o 392 (cynnydd canrannol blynyddol o 1.25%).

Mae cyflawniadau allweddol yn 2023/24 yn cynnwys cynnal Gyrfa Gymraeg, digwyddiad sy'n hyrwyddo'r Gymraeg a chyfleoedd gyrfaol; ymgymryd â gwaith i gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau ôl-16 Cymraeg; a chynnal ymgynghoriad ieuenctid ledled y ddinas ynghylch darpariaeth ieuenctid ddwyieithog. Yn ogystal, lansiwyd menter Pencampwr Cymraeg De-ddwyrain Cymru ([Cymraeg I Bawb/ Welsh for All](#)) i gynyddu hygyrchedd a hyrwyddo'r Gymraeg, a chyflwynwyd y wefan, "[Ein Dinas, Ein Hiaith / Our City, Our Language](#)", fel adnodd cynhwysfawr ar gyfer addysg a gweithgareddau Cymraeg.

Wrth symud ymlaen, bydd ffocws yn parhau i gael ei roi ar gyflawni Strategaeth Caerdydd Ddwieithog 2022-27 a'i themâu strategol: cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a chreu amodau ffafriol i'r Gymraeg.





Amcan Lles 6

Caerdydd Un Blaned




Cyflwyniad

Newid yn yr hinsawdd, defnydd anghynaliadwy o adnoddau naturiol a'r argyfwng natur cysylltiedig yw rhai o'r heriau mwyaf sylweddol sy'n wynebu cymdeithas, gan effeithio ar bob maes lles.

Mae effeithiau'r argyfwng hinsawdd eisoes yn cael eu teimlo yng Nghaerdydd, gan gynnwys patrymau tywydd eithafol a newidiadau mewn bioamrywiaeth. Mae hyn wedi dod â chostau economaidd a chymdeithasol cysylltiedig oherwydd effeithiau tywydd poeth, llifogydd a chynnydd mewn prisiau bwyd. Wrth i'r ddinas barhau i dyfu, mae angen newidiadau sylweddol i'r ffordd rydyn ni'n byw i leihau allyriadau, cyflawni carbon niwtral, a lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd.





Mae BGC Caerdydd yn cydnabod y bydd angen iddo arwain ar y gwaith o ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, gan gefnogi newidiadau mawr yn y defnydd o ynni ac wrth ddod o hyd iddo, yn y defnydd o geir a'r broses o gaffael bwyd a gwasanaethau.

Bydd y blynyddoedd nesaf yn allweddol wrth droi'r dyheadau hyn yn realiti diriaethol.



Mesur Cynnydd

| Y dangosydd canlyniadau lefel dinas y mae'r BGC yn ceisio cael effaith arno | | Dyddiad y data diweddaraf | Y data diweddaraf | Data Cymharol Ddiweddar | Tueddiad |
|--|--|---------------------------|-------------------|---|----------|
| Allyriadau CO2 fesul pen o'r boblogaeth (t) | | 2022 | 4.2t | 4.6t (2021) | |
| Canran sy'n teithio i'r gwaith ar drafnidiaeth gynaliadwy | | 2023/24 | 49.0% | 51.2% (2019/20) | |
| Cyfartaledd crynodiad NO2 mewn lleoliadau preswyl | | 2021 | 13µg/m3 | 12µg/m3 (2020) | |
| Cyfartaledd crynodiad PM10 mewn lleoliadau preswyl | | 2021 | 14µg/m3 | 13µg/m3 (2020) | |
| Cyfartaledd crynodiad PM2.5 mewn lleoliadau preswyl | | 2021 | 9µg/m3 | 8µg/m3 (2020) | |
| Parciau achrededig Baner Werdd | Nifer y safleoedd y dyfarnwyd y Faner Werdd iddynt | 2023/24 | 19 | 17 (2022/23) | |
| | Nifer y safleoedd y dyfarnwyd Gwobr Gymunedol y Faner Werdd iddynt | | 22 | 18 (2022/23) | |
| Canran y bobl sy'n byw o fewn pellter cerdded i fan gwyrdd o ansawdd uchel. | | 2018-19 | 95% | Nid oes data y gellir ei gymharu ar gael. | |
| Canran y nodweddion dynodedig mewn safleoedd cadwraeth gwarchoddedig sydd mewn cyflwr 'ffafriol'. Mae safleoedd yn cynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA). | | 2020 | 15.4% | Nid oes data y gellir ei gymharu ar gael. | |

| Y dangosydd canlyniadau lefel dinas y mae'r BGC yn ceisio cael effaith arno | Dyddiad y data diweddaraf | Y data diweddaraf | Data Cymharol Ddiweddar | Tueddiad |
|--|---------------------------|-------------------|-------------------------|---|
| Canran sy'n teimlo'n hyderus wrth brynu bwyd sy'n cael ei gynhyrchu mewn ffordd ecogyfeillgar | 2022 | 39.7 % | 42.3 % (2021) |  |
| Canran sy'n teimlo bod yna fudiad bwyd da yng Nghaerdydd | 2022 | 36.6 % | 36.4 % (2021) |  |
| Nifer yr eiddo yng Nghaerdydd sydd wedi cofrestru ar gyfer Gwasanaeth Rhybudd Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) | Mehefin-24 | 21,732 | 21,510 (Gorffennaf-23) |  |
| Canran y gwastraff dinesig a gaiff ei aildefnyddio / ailgylchu / gompostio | 2022/23 | 61.6 % | 58.2 % (2021/22) |  |

Trosolwg o waith y BGC yn 2023/24

Ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd

Cyhoeddwyd Strategaeth Caerdydd Un Blaned (CUB) yn 2021, gyda nod strategol trosfwaol o fapio llwybr ar gyfer dinas Carbon Niwtral. Yn dilyn hynny, sefydlwyd Bwrdd Argyfwng Hinsawdd (BAH) fel is-grŵp o BGC Caerdydd, gan ddod â phartneriaid gwasanaethau cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill y ddinas ynghyd, gan gynnwys Prifysgolion a Chwmnïau Cyfleustodau, i rannu arfer gorau a datblygu mentrau ar y cyd mewn ymateb i'r argyfwng hinsawdd. Cytunwyd yn y pen draw y byddai'r BAH yn archwilio'r potensial ar gyfer mentrau ar y cyd yn y meysydd canlynol: fflyd a seilwaith allyriadau isel; caffael; ystadau, gan gynnwys plannu coed a rheoli tir; ac ymgysylltiad ar gyfer newid diwylliant.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae partneriaid BAH wedi:

- Llywio datblygiad Cynllun Ynni Ardal Leol Caerdydd, sy'n asesu'r gofynion i ddatgarboneiddio ynni ledled y ddinas erbyn 2050¹.
- Wedi gweithio i ddylanwadu ar Gynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd, gan geisio sicrhau bod y Cynllun yn cefnogi datblygiad sero net.
- Cymryd rhan mewn datblygu fframwaith caffael cydweithredol, gan Lywodraeth Cymru, i alluogi Awdurdodau Lleol Cymru i brynu cerbydau trydan ar y cyd.
- Cynnal digwyddiad sy'n canolbwyntio ar rannu syniadau ac arfer da, ynghyd â'r heriau sy'n ymwneud â datgarboneiddio ystadau cyhoeddus, a oedd yn nodi bod angen tua £1-2 biliwn o fuddsoddiad ar draws ystadau cyhoeddus.
- Cefnogi prosiect Coed Caerdydd, gyda 30,000 o goed wedi'u plannu rhwng mis Tachwedd 2023 a mis Ebrill 2024.

Er bod camau gweithredu'n cael eu gwneud gan bartneriaid - gan gynnwys drwy gynlluniau datgarboneiddio gweithredol unigol - mae'n dod yn amlwg bod cyrraedd sefyllfa carbon sero-net yn ymddangos yn heriol ac mae bron yn sicr na fydd yn digwydd heb fuddsoddiad sylweddol gan y llywodraeth. Mae'r cynnydd o ran datgarboneiddio'r ddinas ehangach wedi bod yn gymedrol, gydag allyriadau carbon yn gostwng 0.9% yn unig rhwng 2019 a 2021, yn ôl y data diweddaraf sydd ar gael². Trafnidiaeth yw'r sector sy'n allyrru uchaf ar gyfer y ddinas o hyd, gan gyfrannu 617,400 tonnelli, neu 35% o allyriadau'r ddinas yn 2021.

Mae cyfarfodydd y Bwrdd Argyfwng Hinsawdd yn gadarnhaol, mae llawer yn bresennol ynddynt ac maent yn addysgiadol, yn enwedig o ran cyfnewid gwybodaeth a dysgu. Fodd bynnag, oherwydd trefniadau llywodraethu a gweithredol unigol ar gyfer sefydliadau unigol, hyd yma mae cael ymrwymiad ar y cyd gan sefydliadau ar waith cydweithredol y tu hwnt i rannu arfer gorau wedi profi'n heriol.

Wrth symud ymlaen, mae angen adolygiad er mwyn deall yn well y dirwedd ariannol a'r cyfleoedd economaidd sy'n gysylltiedig â chwrdd â niwtraliaeth carbon, yn ogystal â thargedau ar y cyd. Yn ogystal, mae angen nodi'r dull(iau) mwyaf effeithiol ar gyfer datblygu a hyrwyddo mentrau datgarboneiddio ar y cyd.

Addasiad Hinsawdd

I gyd-fynd â'r gwaith i ddatgarboneiddio'r ddinas fu creu Asesiad Risg Newid Hinsawdd, sy'n cynnig proses gam wrth gam ar gyfer asesu risg newid hinsawdd. Gallai canlyniadau'r gwaith hwn lywio dulliau a chamau gweithredu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol o bosib. Mae materion gallu ac adnoddau yn cael eu hasesu ar hyn o bryd i sicrhau y gellir cwblhau unrhyw broses asesu mor effeithiol â phosib.

1 Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed sy'n gyfreithiol rwmol i gyrraedd allyriadau sero net yng Nghymru erbyn 2050 gydag uchelgais pellach i Sector Cyhoeddus Cymru weithredu fel arweinydd cynnar a model braenaru allweddol yn y broses bontio hon.

2 Rhaid cydnabod bod y data hwn yn tynnu sylw at effeithiau cyfyngiadau symud COVID-19 a dychwelyd i fusnes yn ôl yr arfer wedi hynny. Bydd cyhoeddi data ar gyfer 2022 yn rhoi darlun cliriach o dueddiadau ar ôl COVID-19.

Adfer a Gwella Natur yn y Ddinas

Mae Partneriaeth Natur Leol (PNL) Caerdydd yn parhau i ysgogi diddordeb mewn hamdden awyr agored, gan gefnogi'r defnydd o fannau gwyrdd a glas Caerdydd, gan gynnwys parciau, afonydd/dyfrffyrdd a chanolfannau gweithgareddau awyr agored. Yn 2023/24, cafwyd 650,000 o ymweliadau unigol, a oedd yn gysylltiedig â gweithgaredd hamdden ffurfiol, yn sgil darpariaeth seilwaith gwyrdd a glas.

Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, mae PNL Caerdydd wrthi'n datblygu Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol (CGAN), a fydd yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cenedlaethol. Bydd y Cynllun yn nodi'r hyn sydd angen ei wneud i adfer a gwella natur yn y ddinas.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng mis Tachwedd 2023 a mis Ionawr 2024 i gasglu barn ar natur yng Nghaerdydd a syniadau ar gyfer prosiectau a champau gweithredu. Roedd hyn yn cynnwys cyfres o weithdai wyneb yn wyneb ac ar-lein ar draws y ddinas, ynghyd ag arolwg ar-lein. Ar hyn o bryd mae gwaith yn canolbwyntio ar adolygu data sydd ar gael o ran rhywogaethau a chynefinoedd a datblygu mwy o syniadau ar gyfer camau gweithredu a phrosiectau.

Bydd canfyddiadau'r gwaith hwn yn llywio datblygiad CGAN Caerdydd drafft ar gyfer ymgynghoriad terfynol; y gobaith yw y bydd y Cynllun drafft yn barod ar gyfer ymgynghoriad yn gynnar yn yr hydref, gyda fersiwn derfynol yn cael ei chyhoeddi erbyn mis Mawrth 2025.

I gyd-fynd â'r gwaith hwn fu dilyniant datrysiaid dalgylch cyfan i reoli adnoddau dŵr yn nalgylch Afon Elái, dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Cynhaliwyd Asesiad Cyfalaf Naturiol sydd wedi galluogi gwell dealltwriaeth o statws asedau naturiol a'u manteision, yn ogystal â blaenoriaethau lleol drwy ymgynghoriad cyhoeddus a rhanddeiliaid. O ran y camau nesaf, mae cyfleoedd cyfalaf naturiol y dalgylch yn cael eu harchwilio, sy'n cynnwys datblygu cynllun dalgylch cyfan, sy'n canolbwyntio ar ymagwedd bartneriaeth, i sicrhau bod gwelliannau cyfalaf naturiol yn cael eu cyflawni lle gallant gynhyrchu'r budd mwyaf i natur a phobl.

Hybu bwyd iach, lleol a charbon isel

Mae partneriaeth Bwyd Caerdydd wedi mynd o nerth i nerth, gyda thros 250 o aelodau'n gweithio gyda'i gilydd i hyrwyddo bwyd iach a chynaliadwy ledled y ddinas, gyda'r nod o gyflwyno'r cais am Wobr Aur Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yn ddiweddarach yn 2024.

Mae rhaglen arloesi gwerth £2 filiwn a ariennir gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd ar y gweill ar hyn o bryd, sy'n noddi ffyrdd newydd ac arloesol o dyfu, dosbarthu a datgarboneiddio'r sector bwyd lleol. Dechreuodd cam 'Arddangos' y rhaglen ym mis Gorffennaf 2023, gyda chyllid yn cael ei roi i FareShare Cymru, mewn partneriaeth â Choleg Caerdydd a'r Fro, i ddatblygu prosiect aiddosbarthu bwyd dros ben. Mae'r fenter wedi darparu prydau, wedi'u gwneud o fwyd a fyddai fel arall yn mynd yn wastraff, i sefydliadau cymunedol ac elusennau sy'n cefnogi rhai o aelodau'r gymdeithas sy'n fwyaf agored i niwed. Dechreuodd ail rownd cam yr Arddangos ym mis Medi 2023, gyda'r Ganolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch. Oherwydd yr heriau o ran bodloni meini prawf y rhaglen, fodd bynnag, nid oedd modd cwblhau prosiect CYGU. Bydd cam 'Uwchraddio' y rhaglen yn dechrau ym mis Medi 2024, a disgwylir i geisiadau gael eu cyflwyno ym mis Awst.

Cwblhau a chynnal y gwaith o weithredu'r Siarter Teithio Iach

Mae partneriaid yng Nghaerdydd wedi parhau i gymryd rhan yn y gwaith o gyflwyno'r Siarter Teithio Iach, gyda'r Grŵp Cyfoedion - sydd bellach yn grŵp cyfunol gyda Bro Morgannwg - yn rhannu arfer da a chynnydd. Mae naw sefydliad yng Nghaerdydd wedi cwblhau'r Siarter wreiddiol ('lefel 1') yn ffurfiol, gyda phedwar bellach wedi cofrestru ar gyfer y Siarter Lefel 2 sy'n cynnwys ymrwymadau mwy ymestynnol.

Yn ystod 2024/25, rhagwelir y bydd y data cadarn cyntaf ar y modd trafnidiaeth ar gael yng Nghymru, yn dilyn cyflwyno Arolwg Teithio Cenedlaethol blynyddol newydd. Ni fydd data ar lefel Awdurdod Lleol i ddechrau, ond rhagwelir y bydd hyn yn bosib yn y blynyddoedd i ddod, gan ddarparu data ar newidiadau yn y modd teithio dros amser. At hynny, yn 2024/25, bydd gwelliannau sylweddol i drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghaerdydd ac ardal ehangach y Cymoedd gyda cherbydau rheilffyrdd newydd ychwanegol, cynyddu amllder y trenau, taliadau tapio i mewn ac allan, ac agor cyfnewidfa fysis newydd yng Nghaerdydd. Mae gan hyn y potensial i gefnogi newid moddol ymhlith gweithwyr yn ystod y flwyddyn i ddod.



echa
echnical
Council
of
Housing
Contractors
(echnical
Council
of
Housing
Contractors)

NAYAAT
WAZIRI
TRUST

hub
Services
you
need




Amcan Lles 7

Moderneiddio ac
Integreiddio ein
Gwasanaethau
Cyhoeddus

Cyflwyniad

Mewn ymateb i alw cynyddol a chyllidebau llai, mae gwasanaethau cyhoeddus yn dilyn rhaglen o foderneiddio i wella effeithlonrwydd, eu galluogi i ddarparu gwasanaethau'n well, a hyrwyddo newid cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae hyn yn golygu symleiddio'r ffordd y mae busnes yn cael ei wneud, yn ogystal â pharhau i archwilio dulliau integredig o ddarparu gwasanaethau, gwneud gwell defnydd o sylfaen asedau gwasanaethau cyhoeddus a dod o hyd i ffyrdd newydd a gwell o weithio i fanteisio ar dechnoleg newydd. Mae hefyd yn golygu sicrhau bod y gweithlu'n cael ei ddatblygu a'i gefnogi i fodloni gofynion parhaus ei rolau. Wrth ddiwallu anghenion y gweithlu presennol ac yn y dyfodol, mae BGC Caerdydd wedi ymrwymo i hyrwyddo gwasanaethau cyhoeddus cynhwysol ac atyniadol sy'n adlewyrchu amrywiaethau mawr cymunedau Caerdydd.



Mesur Cynnydd

| Y dangosydd canlyniadau lefel dinas y mae'r BGC yn ceisio cael effaith arno | Dyddiad y data diweddaraf | Y data diweddaraf | Data Cymharol Ddiweddar | Tueddiad |
|--|---------------------------|-------------------|-------------------------|----------|
| Canran sy'n fodlon ag ansawdd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd? | 2023 | 49.4% | 52.1% (2022) | |
| Canran y bobl sy'n fodlon gyda'u gallu i gyrraedd/cael gafael ar y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt | 2021/22 | 92% | 90% (2020/21) | |

Trosolwg o waith y BGC yn 2023/24

Cynyddu'r defnydd o ddata, gan gynnwys data a rennir, ar draws gwasanaethau cyhoeddus

Mae nifer o brosiectau ar y gweill i wella rhannu data a dysgu ar draws sefydliadau, gan gynnwys prosiect arloesol, Golwg Unigol ar y Plentyn. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar ddod â gwybodaeth ynghyd o systemau TG gwahanol ar draws Gwasanaethau Plant, Addysg, Iechyd, a nifer o wasanaethau sector cyhoeddus eraill, i greu un darlun cydgysylltiedig o blentyn. Bydd hyn yn arwain at rannu gwybodaeth yn gyflymach ar draws gwasanaethau, ynghyd â gwneud penderfyniadau gwell a arweinir gan wybodaeth, ar lefel achosion unigol ac ar lefel strategol. Dros y 12 mis diwethaf, mae'r prosiect wedi cymryd camau breision wrth gyrraedd ei nod, er gwaethaf heriau o ran llywodraethu gwybodaeth, galluoedd technegol systemau a phrosesau, ac adnoddau prosiectau. Bellach mae gan y prosiect gynnyrch byw y bwriedir ei lansio yn 2024/25, gyda'r defnyddwyr cyntaf yn weithwyr cymdeithasol rheng flaen yn y Gwasanaethau Plant.

Mae prosiectau rhannu data eraill yn cynnwys y Dangosfwrdd Diogelwch Cymunedol, offeryn ar gyfer delweddu data troseddau lefel uchel i nodi ardaloedd allweddol o ddiddordeb ar draws Caerdydd, a Dangosfwrdd y Ddinas, sy'n cyfuno nifer o setiau data, yn ôl thema, i gyflwyno darlun o fywyd yng Nghaerdydd. Mae'r ddau ddangosfwrdd bellach wedi'u cyhoeddi¹, gyda gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf yn canolbwyntio ar wella profiad y defnyddiwr.

Dull integredig o reoli a datblygu asedau

Ailsefydlwyd y Bwrdd Rheoli Asedau Partneriaeth yn 2023/24, gan ganolbwyntio ar ddeall asedau a chynlluniau cyfalaf presennol ymhlith partneriaid a nodi bylchau a chyfleoedd ar gyfer mentrau ar y cyd. Mae'r gwaith hwn wedi'i lywio gan Gynllun Cyfalaf Strategol Caerdydd a'r Fro, a ddatblygwyd drwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro, sy'n amlinellu cyfleoedd buddsoddi i gefnogi cyfeiriad strategol y rhanbarth yn y tymor byr, canolig ac yn yr hirdymor. Cytunwyd ar amrywiaeth o gynlluniau partneriaeth â blaenoriaeth ac maent yn cael eu datblygu o ganlyniad.

Ar gyfer unrhyw gynlluniau seilwaith ar y cyd, mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod y datblygiad yn gwneud yn fawr o gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth leol a chadwyni cyflenwi, yn ogystal â chefnogi'r ddinas i gyflawni datgarboneiddio. Mae'n ofynnol i'r holl brosiectau adeiladu newydd, fel y nodir yn y Cynllun Cyfalaf Strategol, ddangos darpariaeth carbon seronet, wrth fod sefydliadau partner hefyd yn gweithio i annog a sicrhau bod cyflenwyr yn darparu gwerth cymdeithasol i gymunedau - gan gynnwys buddion sy'n gysylltiedig â chyflogaeth.

Mae dilyniant y gwaith hwn yn wynebu heriau sylweddol, fodd bynnag, gan gynnwys prinder adnoddau cyfalaf a chyflawni prosiectau ar draws partneriaid oherwydd heriau recriwtio a phrinder sgiliau, yn ogystal ag adnoddau cyfyngedig o fewn sefydliadau partner, gan fod cyfalaf a refeniw yn canolbwyntio ar faterion ar unwaith. Mae'r hinsawdd economaidd ehangach hefyd yn heriol, gyda chostau cynyddol ac wedi'u dwysáu o fewn y sector adeiladu yn cynrychioli risg cyflawni a fforddiadwyedd allweddol i brosiectau. Mae cyfraddau llog hefyd wedi cynyddu'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf.

Serch hynny, mae ymrwymiad cryf i gydweithio ar gynllunio cyfalaf strategol ac mae'r gwaith presennol yn adeiladu ar brosiectau partneriaeth llwyddiannus hyd yma.

¹ Mae'r Dangosfwrdd Diogelwch Cymunedol ar gael i grŵp defnyddwyr dethol, fel y'i diffinnir a'i reoli gan Dîm Diogelwch Cymunedol Cyngor Caerdydd. Mae Dangosfwrdd y Ddinas ar gael i'r cyhoedd a gellir ei weld yma.

Cynyddu lefelau ymgysylltiad dinasyddion wrth wneud penderfyniadau

Mae cydgyhyrchu, ymgysylltu ac ymgynghori yn weithgareddau allweddol wrth sicrhau bod cymunedau'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u deall. Mae pob partner o BGC Caerdydd yn cynnal gweithgarwch sylweddol yn y maes hwn bob blwyddyn mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan lwyddo yn aml i gasglu gwybodaeth ddefnyddiol gan gymunedau.

Er mwyn dod â'r gwaith hwn at ei gilydd, ymrwymodd BGC Caerdydd i lunio 'Adroddiad Trosolwg Ymgynghori' yn flynyddol, sy'n tynnu sylw at ganfyddiadau allweddol ymarfer ymgynghori ac ymgysylltu a gynhaliwyd gan bartneriaid yn ystod y flwyddyn flaenorol. Cyhoeddwyd yr [Adroddiad Trosolwg Ymgynghori cyntaf](#) fel dogfen ategol i Gynllun Llesiant Lleol (2023-28) newydd BGC Caerdydd, gan dynnu sylw at ganfyddiadau allweddol, yn ogystal â materion penodol a godwyd gan grwpiau demograffig allweddol yn seiliedig ar ddadansoddiad o ganlyniadau gan ddemograffeg. Disgwylir i'r fersiwn nesaf gael ei chyhoeddi yn ddiweddarach yn 2024.

Er bod hwn yn gam cadarnhaol ymlaen, cydnabyddir y gellid cryfhau'r dull partneriaeth o ymgynghori ac ymgysylltu ymhellach, er mwyn ehangu cwrpas cyfleoedd a helpu i fynd i'r afael â heriau a rennir. Yn ystod y misoedd diwethaf, felly mae sgysiau wedi gwneud cynnydd ar draws y sector cyhoeddus yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg ynghylch sefydlu 'Partneriaeth Ymgysylltu â Gwasanaethau Cyhoeddus'. Mae'r syniad o'r grŵp hwn yn canolbwyntio ar rannu adnoddau, gwybodaeth a rhwydweithiau i wir ddefnyddio sgiliau cyfunol gwasanaethau cyhoeddus a chyflawni'r gwaith ymgysylltu o'r ansawdd uchaf ar draws y rhanbarth, heb fawr ddim dyblygu. Cynigir bod y grŵp yn cynnwys gweithwyr proffesiynol ymgysylltu o sefydliadau partner ar draws Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd a Bro Morgannwg.

Arwain gwasanaethau cyhoeddus sy'n ymateb i amrywiaeth y ddinas ac yn ei hadlewyrchu

Ym mis Gorffennaf 2020 sefydlwyd Tasglu Cydraddoldeb Hiliol gan Gyngor Caerdydd a ddaeth â phartneriaid sector cyhoeddus a chyflogwyr mawr ynghyd i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail hil a hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yn y ddinas. Daeth Tasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd i ben ym mis Mawrth 2022 a chyhoeddodd ei [adroddiad terfynol](#), a oedd yn cynnwys 31 o argymhellion ar draws y pum maes thematig o gyflogaeth a gweithlu cynrychioliadol; addysg a phobl ifanc; llais y dinesydd; iechyd; a chyfiawnder troseddol. Ar ôl derbyn yr argymhellion, cytunodd BGC Caerdydd i sefydlu Rhwydwaith Cydraddoldeb Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Caerdydd, i oruchwylio'r argymhellion sy'n gofyn am ymateb partneriaeth, yn ogystal â helpu i hyrwyddo cydraddoldeb yn y gweithle, arallgyfeirio gweithluoedd a chefnogi datblygiad grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol o fewn sefydliadau.

Ar gyfer pob argymhelliad, ers hynny mae cyrff cyhoeddus perthnasol wedi gweithio i nodi ymateb rheoli cynhwysfawr, gyda'r Tasglu yn ailymgynnull ym mis Mehefin 2024 i ystyried cynnydd. Yn gyffredinol, mynegwyd bod cynnydd da wedi'i wneud o ran cyflawni'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt, gan gydnabod bod y camau gweithredu yn cynrychioli rhaglen waith sylweddol sy'n adeiladu ar yr arfer da sydd eisoes yn amlwg ar draws sefydliadau.

Wrth symud ymlaen, mae gwaith wedi'i wneud i sicrhau bod unrhyw gamau parhaus neu heb eu cwblhau yn cael eu gwreiddio mewn fframweithiau polisi, er mwyn sicrhau bod ffocws yn cael ei gynnal ar gyflawni'r holl gamau gweithredu y cytunwyd arnynt yn llawn. Bydd y Rhwydwaith Cydraddoldeb Gwasanaethau Cyhoeddus yn parhau i fonitro cynnydd.